

# Prosiect Dynodi Parc Cenedlaethol Gogledd Ddwyrain Cymru

## Cwestiynau Cyffredin

### Wedi'i diweddarau ar 11 September 2023

Ychwanegir at y ddogfen hon wrth i'r prosiect fynd yn ei blaen ac wrth i ni gael cwestiynau pellach.

### O ble daeth y cynnig i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd?

Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021-2026), mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn seiliedig ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) bresennol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. O ganlyniad, mae'n rhaid cynnal proses gwerthuso dynodi tirwedd yn awr i asesu'r achos dros y dynodiad.

### Beth yw rôl Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)?

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar dirwedd a harddwch naturiol a'r awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEau) newydd.

Mae CNC wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn erbyn y meini prawf statudol ar gyfer dynodi Parc Cenedlaethol. Llywodraeth Cymru, nid CNC, sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol.

### Beth fyddai'n newid pe bai AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn newid ei statws?

Ar hyn o bryd, pwrpas statudol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yw gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal. Byddai newid

statws yr ardal hon i Barc Cenedlaethol yn golygu mai ei phwrpas yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, a; hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'i rhinweddau arbennig.

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac AHNEau hefyd yn wahanol. Ar hyn o bryd mae cyflawni pwrpas a dyletswydd AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn rhan o waith yr awdurdodau lleol. Mae'r AHNE bresennol yn cwmpasu mwy nag un ardal awdurdod lleol sy'n golygu bod trefniadau llywodraethu cydgysylltiedig wedi'u sefydlu. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau dynodiad Parc Cenedlaethol newydd, yna bydd gofyn iddynt sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd.

## Beth yw'r broses ar gyfer gwerthuso'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru?

Er mwyn i Barc Cenedlaethol gael ei ddynodi, mae ardal yn cael ei hasesu'n fanwl ac mae'n rhaid iddi basio profion penodol a nodir mewn deddfwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau o harddwch naturiol a chyfleodd ar gyfer hamdden yn yr awyr agored. Bydd ymgynghoriad statudol a chyhoeddus hefyd yn cael ei gynnal a cheir dadansoddiad o opsiynau amrywiol i sicrhau bod y Parc yn bodloni gofynion ac yn darparu budd i ddinasyddion Cymru.

### Mae tair prif ran i archwilio'r achos dros Barc Cenedlaethol newydd.

**Cam 1 Cyn-gychwyn:** Cytunodd Bwrdd CNC ar 22 Medi 2021 i ddechrau'r cam cyn-gychwyn sy'n cynnwys cynhyrchu canllawiau gweithdrefnol ar y broses ddynodi, cadarnhau'r adnoddau angenrheidiol a sefydlu tîm y prosiect a chynnal deialog anffurfiol ag awdurdodau lleol perthnasol. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau.

**Cam 2 Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu:** Mae hyn yn cynnwys:

- **Asesu ardal chwilio a sefydlu'r sylfaen dystiolaeth:** Mae hyn yn cynnwys diffinio'r maint daearyddol mwyaf ar gyfer Parc Cenedlaethol posibl yn seiliedig ar gyfres o astudiaethau. Bydd yr astudiaethau hyn yn edrych ar rinweddau unigryw'r ardal, y ffactorau sy'n dylanwadu ar bwysau o blaid ac yn erbyn Parc Cenedlaethol newydd, a'r ffordd orau o drefnu'r awdurdod.
- **Asesiad o dir i'w ddynodi:** Mae'r ardal wedi'i rhannu'n 'Ardaloedd Gwerthuso' a chaiff ei hasesu yn erbyn meini prawf technegol ar gyfer harddwch naturiol a hamdden awyr agored. Caiff hyn ei lywio gan ddata a thystiolaeth, dilysu yn y maes ac ymgysylltu â'r cymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Yna ystyrir buddioldeb dynodi a nodir 'Ardaloedd Ymgeisiol' i'w ddynodi.
- **Gosod ffiniau manwl:** Mae ardaloedd y dangoswyd eu bod yn bodloni'r meini prawf harddwch naturiol a hamdden awyr agored a lle mae CNC yn ystyried bod dynodi Parc Cenedlaethol yn ddymunol, yn cael eu cynnwys o fewn ffin dynodiad drafft. Ar y cam hwn, gellir eithrio ardaloedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf dynodi yn llawn neu nad

ydynt ond yn eu bodloni'n rhannol. Bydd y ffin arfaethedig yn cael ei mapio, ynghyd ag esboniad manwl a chyfiawnhad dros y ffin.

**Cam 3 Proses ddynodi statudol:** Cynhelir cyfnod ymgynghori statudol a chyhoeddus i gasglu adborth ar y ffin arfaethedig. Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw newidiadau i'r ffin yn cael eu hystyried cyn cyflwyno argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Os oes digon o dystiolaeth i ddangos bod y meini prawf statudol sy'n ymwneud â harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yn cael eu bodloni, a bod gan yr ardal gymaint o arwyddocâd cenedlaethol fel y dylai dibenion Parc Cenedlaethol fod yn berthnasol, bydd Gorchymyn Dynodi'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd y Gweinidogion wedyn yn ystyried hyn ac yn penderfynu a ddylid cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r Gorchymyn Dynodi. Os caiff ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru, bydd Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi.

*Mae rhagor o wybodaeth dechnegol sy'n manylu ar y broses wedi'i chynnwys yn y ddogfen Canllawiau Gweithdrefnol ar gyfer Dynodi Tirwedd Statudol, sydd ar gael ar gais; gweler tudalen wybodaeth y prosiect am ragor o fanylion.*

## Beth yw harddwch naturiol?

Mae harddwch naturiol yn derm a ddefnyddir yn eang i gyfeirio at dirweddau o ansawdd uchel a gwerth golygfaol ac fe'i defnyddir ar draws deddfwriaeth y DU. Gellir ystyried harddwch naturiol fel nodwedd oddrychol sy'n perthyn i dirwedd ac yn y pen draw, fel dynodiadau statudol eraill, mae barn o ran gwerth yn rhan o'r broses. Er mwyn gwneud y dyfarniadau hyn mewn ffordd dryloyw a chyson, byddwn yn dilyn canllawiau penodol sy'n nodi sut y caiff tystiolaeth ei chasglu a'i gwerthuso, a'r meini prawf y byddwn yn eu defnyddio. Mae'r prif ffactorau sy'n ymwneud â harddwch naturiol yn cynnwys ansawdd y dirwedd, ansawdd golygfaol, gwylltineb cymharol, llonyddwch cymharol, nodweddion treftadaeth naturiol, treftadaeth ddiwylliannol.

Mae cymhwyso meini prawf harddwch naturiol yn ymarferol yr un fath ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac AHNEau. Yr unig wahaniaeth technegol er mwyn cael ei ddynodi'n Barc Cenedlaethol yw bod yn rhaid i ardal hefyd fodloni'r meini prawf hamdden. Mae dibenion statudol Parciau Cenedlaethol yn cynnwys bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yn ogystal â harddwch naturiol.

*Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y ddogfen Canllawiau Gweithdrefnol ar gyfer Dynodi Tirwedd Statudol, sydd ar gael ar gais; gweler tudalen wybodaeth y prosiect am ragor o fanylion.*

## Beth yw'r amserlen arfaethedig?

Bydd yr achos dros Barc Cenedlaethol newydd yn cael ei ystyried o fewn tymor presennol y Senedd (2021-2026). Bydd CNC yn cyflwyno'r argymhelliad terfynol i Lywodraeth Cymru ei ystyried ar ddiwedd 2025.

## Ga i leisio barn ar y cynnig i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru?

Cewch. Bydd CNC yn cynnal cyfnod ymgysylltu o ddydd Llun 9 Hydref tan 23:59 ddydd Llun 27 Tachwedd 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Bydd y rhain yn gyfle cynnar i ddysgu mwy am y prosiect, i ofyn cwestiynau i'r tîm a rhannu adborth ar fap cynnar o'r ardal sy'n cael ei hasesu.

Mae croeso i bobl o gymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill rannu eu barn ar y map Ardal Chwilio cychwynnol. Sylwer, nid y ffin arfaethedig fydd y map sy'n cael ei rannu yr adeg yma. Mae'n amodol ar newidiadau pellach wrth i'r weithdrefn asesu fynd yn ei blaen. Bydd ffin arfaethedig yn cael ei pharatoi yn 2024 cyn ymgynghoriad.

**Dim ond un digwyddiad fydd angen i bobl ei fynychu**, boed hynny ar-lein neu wyneb yn wyneb, gan y bydd yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu yr un fath ar gyfer pob digwyddiad.

Anogir pobl i alw draw i'r digwyddiadau wyneb yn wyneb. Nid oes angen archebu lle. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn un o'r digwyddiadau ar-lein, anfonwch e-bost at dîm y prosiect gan nodi eich enw, pa ddigwyddiad sydd o ddiddordeb i chi (y dyddiad) a pha un ai Cymraeg neu Saesneg yw eich dewis iaith. Byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau lle i chi yn y digwyddiad o'ch dewis.

Gweler y wefan am fwy o fanylion am ddyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r digwyddiadau ymgysylltu hyn <https://ymgyngori.cyfoethnaturiol.cymru/north-east-gogledd-ddwyrain/tudalen-wybodaeth-prosiect-dynodi-parc-cenedlaetho>

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth, i fynegi diddordeb yn y digwyddiadau ymgysylltu ar-lein, neu i gysylltu ag aelod o'r tîm, anfonwch e-bost i.

[rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)